



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

DEWI FRANCIS JONES MSc, M.R.T.P.I

Prif Swyddog Cynllunio – Rheoleiddio a
Datblygu Economaidd
Chief Planning Officer – Regulation and
Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor • Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7TW

Owen

Alan ffôn / tel: (01248) 752428

Gofynnwch am / Please ask for: **Huw
Rowlands**

☎
e-mail: huwrowlands@ynysmon.gov.uk

Cais Rhif / App. No. **HHP/2020/182**

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 / TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

**Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn / Full application for alterations and extensions at Fron Siriol, Lon
Ganol, Llandegfan, Porthaethwy / Menai Bridge**

RHYBUDD PENDERFYNIAD

***Darllenwch yr amodau a restrir isod yn ofalus os gwelwch yn dda, efallai y bydd angen cyflawni rhai o'r
amodau cyn, neu yn ystod, y gwaith datblygu.***

Mae eich cais wedi cael ei ystyried gan y Cyngor yn unol â'i awdurdod dan y Ddeddf uchod, a rhoddwyd
CANIATÂD gyda'r amodau canlynol:-

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd
hwn.**

Rheswm: I gydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y diwygiwyd).

**(02) Bydd gwaith ar y datblygiad a ganiateir yma yn cael ei gyflawni mewn modd a fydd yn cydymffurfio'n
llwyr â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau a nodir isod, manylion sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw
ddogfennau a gyflwynwyd gyda chais o'r fath oni bai eu bod wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r amodau
sy'n rhan o'r caniatâd cynllunio hwn.**

- **Cynlluniau ac Edrychiadau Arfaethedig**

Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Y cynllun datblygu sy'n berthnasol i Ynys Môn yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2017). Roedd
y polisiau canlynol yn berthnasol i'r sylw a roddwyd i'r cais hwn: PCYFF 3, AMG 1

NOTICE OF DECISION

***Please read the conditions listed below carefully, some conditions may require to be discharged prior to or
during development.***

Your application has been considered by the Council in accordance with its authority under the above Act and permission has been **GRANTED** with the following conditions:-

(01) The development shall begin not later than five years from the date of this decision.

Reason: To comply with the requirements of Section 91(1) of the Town and Country Planning Act 1990 (as amended).

(02) The development hereby permitted shall be carried out in strict conformity with the details shown on the plans below, contained in the form of application and in any other documents accompanying such application unless included within any provision of the conditions of this planning permission.

- Proposed Plans and Elevations

Reason: To ensure that the development is implemented in accord with the approved details.

The development plan covering Anglesey is the Anglesey and Gwynedd Joint Local Development Plan (2017). The following policies were relevant to the consideration of this application: PCYFF 3, AMG 1

DYDDIAD Y PENDERFYNIAD **10/11/2020** DATE OF DECISION



**DEWI FRANCIS JONES
PRIF SWYDDOG CYNLLUNIO / CHIEF PLANNING OFFICER**

**Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.**

Nodiadau i'w cyflwyno hefo Hysbysiadau Penderfyniadau

Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) - Bydd angen systemau draenio cynaliadwy ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nac 1 tŷ neu lle mae'r arwynebedd adeiladu yn 100m² neu fwy er mwyn rheoli dŵr wyneb ar y safle. Mae'n rhaid i systemau draenio dŵr wyneb gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gofynnol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (DRhLID) 2010 yn gorchymyn bod rhaid i systemau draenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd gydymffurfio â Safonau Cenedlaethol gorfodol ar gyfer draenio cynaliadwy (SDCau). Mae'n rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo SDCau (CCS) cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn. Os hoffech ragor o wybodaeth am y broses newydd hon, cysylltwch â pemht@ynysmon.gov.uk neu gwelwch <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?skip=1&lang=cy>

Rheoliadau Adeiladu – Nid penderfyniad dan y Rheoliadau Adeiladu mo hwn a dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod wedi cael yr holl ganiatadau angenrheidiol ar gyfer yr un cynnig a'r un cynlluniau cyn cychwyn unrhyw waith ar y safle. Gweler <https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Cynllunio-rheoli-adeiladu-a-chadwraeth/Rheoli-Adeiladu/Beth-yw-rheoli-adeiladu.aspx> am ragor o wybodaeth.

Cyflawni Amodau – Os ydych chi eich cais wedi cael ei ganiatáu gydag amodau, yna rhaid i unrhyw amodau y mynnwyd arnynt cyn cychwyn ar y gwaith, gael eu cyflawni'n ffurfiol drwy ffurflen gais cyn cychwyn ar y gwaith. Gellir cael ffurflenni cais drwy <https://www.anglesey.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cynllunio/1APP/Ffurflenni-Cynllunio-Ynys-Môn-1APP.pdf>

Diwygio eich caniatâd (nid yw hyn ond yn ymwneud â chaniatadau cynllunio) – Os ydych chi eisiau newid rhai o'r manylion ar eich caniatâd cynllunio a'r rheini fe ystyrir yn fân-newidiadau yn unig, gallwch ymgeisio am Ddiwygiad Ansylweddol. Gellir cytuno ar newidiadau eraill drwy gyflwyno cais ffurfiol i Amrywio amod neu drwy gyflwyno Cais Cynllunio newydd. Gellir cael ffurflenni cais drwy <https://www.anglesey.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cynllunio/1APP/Ffurflenni-Cynllunio-Ynys-Môn-1APP.pdf>

Glynu wrth amodau/cynlluniau a gymeradwywyd – Bydd methiant i lynu wrth fanylion cynlluniau a gymeradwywyd neu i gydymffurfio gydag amodau yn tynnu'n groes i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a gellir cymryd camau gorfodaeth yn y fath achosion.

Enwi a Rhifo Strydoedd / Creu Cyfeiriad Newydd - Mae enwi a rhifo strydoedd yn un o swyddogaethau cyfreithiol Cyngor Sir Ynys Môn, i ddyrannu rhifau tai ac enwau ffyrdd i unrhyw ddatblygiadau newydd ac addasiadau eiddo, fel bod y gwasanaethau brys yn gallu dod o hyd i unrhyw gyfeiriad maent yn cael eu galw iddo; ac i alluogi danfon post yn effeithiol.

Gan weithredu fel yr Awdurdod Enwi a Rhifo Strydoedd mae'r Cyngor yn cyflawni'r swyddogaethau hyn o dan ddarpariaethau adrannau 17 -19 o'r Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925.

Sylwer nad yw'r awdurdod yn pennu codau post, ond lle bo angen, 'rydym yn cael codau post newydd gan y Post Brenhinol ar ôl cytuno ar gyfeiriadau newydd. Ni fydd y Post Brenhinol yn dyrannu codau post heb yr hysbysiad ffurfiol o gyfeiriad newydd gan yr awdurdod lleol

Bydd perchnogion/datblygwyr yn ei chael yn anodd cael gafael ar bost, nwyddau a gwasanaethau o amrywiaeth o ffynonellau os nad oes ganddynt gyfeiriad post swyddogol; er enghraifft, wrth wneud cais am gerdyn credyd, cael nwyddau drwy'r post neu gofrestru gyda gwasanaethau cyfleustodau. Felly, mae'n bwysig iawn eich bod yn dechrau'r broses enwi a rhifo strydoedd a chreu cyfeiriad newydd cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn caniatâd cynllunio ac o leiaf cyn cwblhau unrhyw adeilad newydd neu drosiadau.

Mae manylion y broses enwi a rhifo strydoedd ar gael ar wefan y Cyngor:

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Trigolion/Parcio-lonydd-a-theithio/Ffyrdd-a-Phalmentydd/Enwi-strydoedd-a-rhifo-eiddo.aspx>

Hawl i Apelio - Os ydych chi yn teimlo eich bod wedi cael cam oherwydd bod cais wedi ei wrthod neu am fod amodau wedi eu gosod ar gais, gallwch gyflwyno apêl i'r Arolygiaeth Gynllunio yn Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu ar-lein yn <https://llyw.cymru/apeliadau-cynllunio>. Rhaid gwneud apeliadau ar y ffurflen gywir ar gyfer y math o gais a gyflwynwyd gennych. Bydd gwybodaeth a ddarperir fel rhan o broses apelio'n cael ei chyhoeddi ar-lein. Dim ond yr ymgeisydd sydd â'r hawl i apelio. Mewn rhai amgylchiadau gall yr Arolygiaeth Gynllunio wrthod ystyried apêl.

Mae'r hysbyseb penderfyniad hwn yn ymwneud yn unig gyda'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel diwygiwyd) ac nid yw yn awgrymu y cymeradwyir unrhyw gymeradwyaeth, sydd efallai ei angen o dan ddarpariaethau cyfreithiol ar wahân.

Notes to accompany Decision Notices

Sustainable Drainage Systems (SuDS) - All new developments of more than 1 house or where the construction area is of 100m² or more will require sustainable drainage to manage on-site surface water. Surface water drainage systems must be designed and built in accordance with mandatory standards for sustainable drainage published by Welsh Ministers. Schedule 3 of the Flood and Water Management Act (FWMA) 2010 requires surface water drainage for new developments to comply with mandatory National Standards for sustainable drainage (SuDS). These systems must be approved by the Isle of Anglesey County Council acting in its SuDS Approving Body (SAB) role before construction work begins. If you would like more information about this new process, please contact pemht@anglesey.gov.uk or see <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?lang=en>

Building Regulations - This decision is not a decision under the Building Regulations and the applicant should ensure that all necessary approvals for the same proposal and same plans are obtained before commencing any work on the site. See <https://www.anglesey.gov.uk/en/Residents/Planning-building-control-and-conservation/Building-control/What-is-building-control.aspx> for further information.

Discharge of Conditions – If your application has been approved with conditions then any pre-commencement conditions must be formally discharged through application before work starts. Application forms can be obtained via <https://www.anglesey.gov.uk/documents/Docs-en/Planning/Making-a-Planning-Application/1APP/Isle-of-Anglesey-Planning-Application-Forms-1APP.pdf>

Amending your permission (only applies to planning permissions) – If you want to change some details of your planning permission and the change is considered minor, you can apply for a Non-Material Amendment. Other changes may be agreed through formal application for a Variation of Condition or through a new Planning Application. Application forms can be obtained via <https://www.anglesey.gov.uk/documents/Docs-en/Planning/Making-a-Planning-Application/1APP/Isle-of-Anglesey-Planning-Application-Forms-1APP.pdf>

Adherence to approved plans/conditions - Failure to adhere to the details of the approved plans or to comply with the conditions contravenes the Town and Country Planning Act 1990 and enforcement action may be taken.

Street Naming & Numbering / Creation of New Address - Street naming and numbering is a legal function of the Isle of Anglesey County Council, to allocate house numbers and road names logically to any new developments and property conversions, so that the emergency services are able to speedily locate any address to which they may be summoned; and to enable effective delivery of mail.

Acting as the Street Naming and Numbering Authority the Council carries out these functions under the provisions of the Public Health Act 1925 sections 17 -19.

Please note that the authority does not determine postcodes, but where necessary, obtains new postcodes from the Royal Mail after new addresses have been agreed. Royal Mail will not allocate postcodes without a formal notification of a new address from the local authority.

Owners/developers will encounter difficulties in obtaining mail, goods and services from a variety of sources if they do not have an official postal address; for example, when applying for a credit card, obtaining goods by mail order or registering with utility services. Therefore, it is very important that you commence the street naming and numbering process as soon as possible after receiving planning approval and at the latest before any new build or conversion is completed.

Details of the Street naming and Numbering process can be found on the Council's website: <https://www.anglesey.gov.uk/en/Residents/Parking-roads-and-travel/Roads-and-pavements/Street-naming-and-numbering.aspx>

Right of Appeal - If you are aggrieved by a decision to refuse permission or to grant it subject to conditions you can appeal to the Planning Inspectorate at Crown Buildings, Cathays Park, Cardiff CF103NQ or online at <https://gov.wales/planning-appeals>. Appeals must be made on the correct form relating to the type of application you submitted and within the subscribed time limit. Information provided as part of the appeal process will be published online. Only the applicant has the right of appeal. In some circumstances the Planning Inspectorate may refuse to consider an appeal.

This decision notice relates solely to the Town and Country Planning Act 1990 (as amended) and does not purport to grant any approval, which may be required under any separate legislative provisions.